

17/02/22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd hanner tymor hynod o brysur, ga i ddiolch i chi gyd fel rhieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol. Hoffwn rannu rhai negeseuon pwysig gyda chi am drefniadau'r ysgol wrth i ni ddychwelyd ar ôl yr hanner tymor.

Cofiwch am y **diwrnod HMS i staff ar ddydd Gwener y 18fed o Chwefror**, sydd yn golygu nad oes ysgol ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad i'r rhybudd tywydd coch dros Abertawe ar gyfer yfory oherwydd 'Storm Eunice', mae pob safle ysgol yn Abertawe wedi cael cyfarwyddyd i gau a symud i ddysgu o bell. Gan fod yr HMS wedi'i gynllunio, byddwn yn parhau â'r trefniant hwn ar gyfer staff ac felly nid oes unrhyw ddysgu o bell ffurfiol. Fodd bynnag, anogir pob disgybl, ond yn enwedig disgyblion oedran arholiadau, i barhau â'u adolygu a'u paratoi yfory a thros hanner tymor ar gyfer y gyfres arholiadau sydd ar y gweill.

Byddwn yn **dychwelyd ar ddydd Llun yr 28ain o Chwefror o dan lefel rybudd 'Uchel'**. Golyga hyn y byddwn yn cynnal y mesurau sydd gennym ar waith (gweler y [Llythyr-i-rieni-050122.pdf](https://www.bryntawe.swansea.sch.uk) ([bryntawe.swansea.sch.uk](https://www.bryntawe.swansea.sch.uk)) am fanylion) i leihau'r risg o ledaenu'r firws yn yr ysgol. Mae'r rhain yn allweddol bwysig i ddiogelu iechyd holl gymuned yr ysgol, ac yn allweddol bwysig hefyd i gadw'r risg o ledaenu mor isel â phosib wrth i ni agosáu at dymor arholiadau. Mae yna **ddau newid pwysig**:

- **Ni fydd angen i ddisgyblion wisgo mygydau mewn ystafelloedd dosbarth o ddydd Llun yr 28ain o Chwefror ymlaen**, ond fe fydd angen i ddisgyblion barhau i wisgo mygydau mewn coridorau, neuaddau a'r ffreutur, yn ogystal ag ar gludiant ysgol.
- **Bydd angen i ddisgyblion a staff barhau i gymryd 2 brawf LFT** wythnosol, ar ddydd Llun ac Iau, yn hytrach na'r 3 presennol. Os oes angen rhagor o brofion arnoch fel teulu, plis cysylltwch gyda ni.

Gweler y **llythyr yma** gan Gyfarwyddwr Addysg Abertawe gyda manylion pellach am y lefel rybudd wrth ddychwelyd ar ôl hanner tymor.

Gyda **thymor yr arholiadau** yn gyflym agosáu, byddwn yn rhannu dyddiadau'r asesiadau di-arholiad ar gyfer blynyddoedd 11, 12 a 13eg gyda chi ar ôl hanner tymor. Bydd eich plentyn yn derbyn amserlen arholiad personol ar gyfer ei arholiadau yn yr haf, ond mae'r amserlen lawn ar gyfer cyfres yr haf ar ein safwe: [Arholiadau : Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#). Mae disgyblion 11, 12 a 13 wedi ymateb yn dda iawn i'r ffug arholiadau yn ystod yr hanner tymor yma, sydd yn baratoad gwych ar gyfer cyfres yr haf.

Mae **ffug-arholiadau blwyddyn 10 wedi eu trefnu ar eu cyfer yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar y 07/03/22**. Byddwch yn derbyn amserlen cyn hanner tymor ar gyfer y gyfres fewnol yma.

Braf bydd gallu dathlu **dydd Gŵyl Dewi** ar y 1af o Fawrth gyda'n gilydd. Bydd nifer o ddigwyddiadau yn ystod y dydd ar gyfer dathlu dydd ein nawdd sant gyda chyfle i'n disgyblion a'n staff i wisgo coch a chydwylio Seremoni Cadeirio'r ysgol eleni. Pob lwc i bob cystadleuydd!

Dyma **ddyddiadau'r nosweithiau rhieni yn ystod yr hanner tymor nesaf**:

- Noson Rieni Bl.8 - Dydd Mercher 09/03/22
- Noson opsiynau TGAU i Flwyddyn 9 – Dydd Mercher 16/03/22
- Noson Rieni Bl.7 - Dydd Mawrth 29/03/22



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies



Mae ein **gwisg ysgol yn destun balchder** gyda'r disgyblion yn edrych yn daclus iawn! Diolch am eich cefnogaeth barhaus gyda'r safonau sylfaenol yma. Siom yw'r angen i drafod yn aml gydag ychydig iawn o ddisgyblion am ddiffyg cydymffurfio gyda'r disgwyliadau gwisg clir iawn sydd gennym. Byddwn yn tynnu sylw rhieni unigol at ddiffygion gwisg yr ychydig ddisgyblion yma sydd yn gweld cydymffurfio gyda disgwyliadau gwisg yn anoddach e.e. esgidiau, trowsus / sgert, siwmpwr...

Yn yr un modd, mae'r **disgwyliadau ar gyfer ymddangosiad a gemwaith** yn hollol glir a does dim caniatâd i ddisgyblion wisgo tlysau yn eu trwyn neu unrhyw ran arall o'r wyneb. Diolch i gyngor disgyblion yr ysgol ac i'r Llywodraethwyr am benderfynu ar y disgwyliadau yma. Un clustlws sy'n cael ei dderbyn. Gweler y polisi yma: [Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#). Gofynnwn i rieni disgyblion sydd yn herio'r disgwyliadau yma i sicrhau bod eich plentyn yn cydymffurfio.

Mae ein disgwyliadau o ran ymddangosiad ein disgyblion yn allweddol er mwyn creu undod ar draws ein disgyblion ac er mwyn sicrhau cyfartaledd. Mae'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, yn sicrhau'r argraff orau o ran ymrwymiad i ddysgu ac yn arwydd clir o barch tuag at lwyddiant Bryn Tawe fel sefydliad. **Diolch am gefnogaeth pob rhiant yn yr ymgyrchoedd pwysig yma.**

Mae yna lu o weithgareddau yn barod wedi eu cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn a cha i apelio atoch i annog eich plentyn i ymrwymo a chyfranogi yn y cyfleoedd allgyrsiol eang yma er mwyn cyfoethogi eu profiad ysgol hwy ym Mryn Tawe.

Fel ar bob adeg, rydym yma i gefnogi ein disgyblion a'u teuluoedd ar bob adeg ac os allwn fod o gymorth, peidiwch ag oedi rhag cysylltu.

Mwynhewch yr hanner tymor.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL** | Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies

